

CYNGOR CYMUNED BETWS YN RHOS A LLANELIAN YN RHOS

CLERC: John MacLennan, 19 Lon Garnedd, Abergele. LL22 7EW Ffôn : 01745 826901

Sym : 07903 328655 e-bost : johnmaclennan9@icloud.com

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD YNG NGANOLFAN GYMUNEDOL, LLANELIAN YN RHOS, AM 7.30y.h. NOS LUN, TACHWEDD 1af, 2021.

1. CROESO - Fe groesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
2. YN BRESENNOL - Y Cadeirydd, y Cynghorydd Irwedd Griffiths a'r Cynghorwyr Hefin Williams; Bryn Jones; D.Gwyn Jones; Tudur W.Jones; Gwyndaf O.Roberts; John D.Roberts; Goronwy R.Williams a'r Cynghorydd Sir, Ifor G.Lloyd.
3. YMDDIHEURIADAU - y Cynghorydd John Evans.

4. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Atgoffor aelodau ei bod yn rhaid iddyn nhw ddatgelu bodolaeth a natur unrhyw ddiddordebau personol gan ddefnyddio'r ffurflen a ddarperir ar gyfer hynny. Mae'r Cynghorydd Ifor Lloyd wedi dsweud ei fod o'n eistedd ar y pwyllgor cynllunio ac felly na all gymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau a wneir ar geisiadau sy'n cael eu trafod, ond y gallai ateb cwestiynau'n ymwneud â rheolaethau cynllunio a pholisïau. NI DDATGELWYD YR UN.

5. MUNUDAU

PENDERFYNWYD cadarnhau, cymeradwyo ac arwyddo munudau'r cyfarfod a gynhaliwyd ar Hydref 4ydd, 2021, yn dibynnu ar gais am newid gan y Cynghorydd D.Gwyn Jones a ddywedodd ei fod wedi datgelu diddordeb yn eitem 10.21/12(ii) Cais Cynllunio 0/48943, gan ei fod yn pertthyn i'r sawl oedd yn gwwneud y cais. CYTUNWYD ar hynny gan bawb.

6. MATERION YN CODI -

7.21/14(i) Codi fferm wynt fawr ar dir uwchben Nant Ucha a Mynydd Du. Cyfarfod cyhoeddus i'w gynnal i drafod y cais hwn. PENDERFYNWYD gofyn i swyddogion cwmni'r fferm wynt a'r Cyngor Sir i ddod i gyfarfod ym mis Medi neu Hydref. Dywedodd y Cynghorydd Lloyd ei fod o wedi cyfarfod Blue Energy ynghyd ag aelodau eraill o'r Cyngor Cymuned a'r Senedd, ac mae cofnodion o hwnnw wedi eu hatodi yn Atodiad 1. Fe ddsbarthodd o gopiïau o'r nodiadau i'r aelodau. Dywedodd

wrth yr aelodau fod cyfarfod ar Zoom i'w gynnal am 7.30y.h. ar Dachwedd 24ain, 2021.

9.21/6(i) Gosod plac yn ymwneud â champwaith Ms Georgia Wilson. CYTUNODD yr aelodau y dylid prynu plac ac y dylid atodi arysgrif yn Atodiad 2. Y Clerc i gysylltu gyda Dyffryn Memorials gyda'r newid.

7. CYLLID ar gyfer y cyfnod yn gorffen ar Hydref 20fed, 2021. - NODODD yr aelodau'r sefyllfa ariannol a'r adroddiadau banc, fel a restrir isod:-

Cyfrif cymunedol£8,240.75

Cyfrif busnes£5,551.32

I GYMERADWYO'R FANTOLEN AR GYFER YR UN CYFNOD. CYTUNWYD arni gan bawb.

8. GOHEBIAETH

10.21/8(ii) e-bost wedi ei anfon i Bute Energy ynghylch presenoldeb yn y cyfarfod Cyngor. Gweler eitem 7.21/14(i) uchod.

10.21/8(iii) Llythyr gan Darren Millar AS ynghylch dod i gyfarfod o'r Cyngor. CYTUNODD yr aelodau i ofyn i Darren Millar AS ddod i gyfarfod o'r Cyngor, ond gofynnwyd am ei ohirio tan y Flwyddyn Newydd.

9. TALIADAU A DDERBYNIWYD - Dim.

10. TALIADAU ALLAN - CYTUNODD yr aelodau i dalu'r holl eitemau a restrir isod:-

11.21/10(i) HMRC£71.81 - AS

11.21/10(ii) Cyflog y Clerc£287.23 - AS

11.21/10(iii) Cyfieithu(Hanner y gost)£21.50 – Siec 200122

11.21/10(iv) Treuliau swyddfa (Ebrill - Tachwedd)£100.00 – Siec 200123

11.21/10(v) Stampiau£40.80 – Siec 200124

11.21/10(vi) Rhentu neuadd y Pentref, Betws yn Rhos£75.00 – Siec 200125

11. GRANTIAU –

Roedd cais wedi ei dderbyn gan Llanellian Welfare of the Elderly am gyfraniad i'w gynnwys yn y praesept ar gyfer 2022/23.

12. CYNLLUNIO -

11.21/12(i) 0/48997 Adnewyddu cais cynllunio 0/43196 (Adnewyddu annedd arfaethedig) yn Glan Gors, Llanellian. Mr. S.Brooks a Ms J.Croft. Dywedodd y Clerc na allai gael unrhyw fanylion oddi ar wefan gynllunio'r Cyngor Sir. Fe geisiodd y Cynghorydd Lloyd hefyd gael mynediad i fanylion yn y cyfarfod, ond yn aflwyddiannus. Dywedodd y byddai'n siarad efo 'r Adran Gynllunio i ddweud wrthyn nhw am bryderon yr aelodau.

11.21/12(ii) 0/49072 Newid defnydd o dir ar gyfer storio carafannau ym Mryn Rodyn, Ffordd Dolwen, Hen Golwyn, gan BR Storage. DIM GWRTHWYNEBIAD.

13. MATERION ARCHWILIAD MEWNOL AC ALLANOL - Dywedodd y Clerc nad oedd fyth wedi derbyn barn Archwilio gan yr Archwiliwr Cyffredinol.

14. MATERION CYNGOR SIR CONWY A'R CYNGHORYDD IFOR LLOYD - Dywedodd y Cynghorydd Lloyd fod gan y Cyngor Sir ddiffyg o £18 miliwn, a'i fod yn siwr y byddai yna doriadau ar wasanaethau'n dilyn, ac am y tro cyntaf y byddai gwasanaethau addysg yn gynwysedig.

15. UNRHYW FATER ARALL

11.21/15(i) Dyddiad diwedd cyflogaeth y Clerc. Gofynnodd y Clerc am i ddyddiad ei ymddeoliad gael ei newid i Dachwedd 30ain, 2021, gan y byddai'r Clerc newydd yn cychwyn ar ei ddyletswyddau ar Ragfyr 1af, 2021. CYTUNWYD ar hynny gan bawb. Ar ran holl aelodau'r Cyngor fe ddymunodd y Cynghorydd Gwyndaf Roberts yn dda i Mr. MacLennan am y dyfodol gan ddiolch iddo am ei wasanaeth. Fe ddiolchodd Mr. MacLennan i'r Cyngor am eu dymuniadau da, gan ddweud ei fod wedi mwynhau ei amser fel Clerc a'i fod yn ddiolchgar am eu holl gefnogaeth yn ystod ei dymor. Fe ddywedodd hefyd wrth yr aelodau fod llythyr cais wedi ei dderbyn gan Mr. Tom Jones o Hen Golwyn. Penderfynwyd derbyn y cais.

11.21/15(ii) Cyhoeddiad am gau ffordd rhwng "Brentwood" a'r gyffordd efo Ffordd Nentydd o 2.11.21 hyd at 4.11.21. NODWYD hyn.

11.21/15(iii) Llythyr i'w arwyddo i ddileu enw'r Clerc ar y mandad ac i orffen ei gyflog a'r taliadau AS HMRC. Fe lofnododd y Cadeirydd a'r Cynghorydd John D.Roberts a'r Clerc y llythyr ar y cyd.

11.21/15(iv) Y Praesept ar gyfer 2022/2023. Trafodwyd y Praesept am beth amser. Y swm terfynol oedd £8483.48. PENDERFYNWYD cymryd £843.48 o'r arian wrth gefn, a hefyd mai'r swm Praesept y byddid yn gofyn amdano gan y Cyngor Sir fydd £8,000.

11.21/15(v) Llythyr i Mrs Ann Vaughan ynghylch mynwent Trofarth.. NODWYD hyn.

11.21/15(vi) Roedd cwyn am ffos wedi blocio ger Sarn wedi ei anfon i'r Cyngor Sir.
NODWYD hynny.

11.21/15(vii) Roedd cyhoeddiad am gau ffordd rhwng Glasfryn a Dolwen ar
Dachwedd 15fed. 2021 wedi ei dderbyn. NODWYD hynny.

Gan nad oedd unrhyw fusnes arall fe orffennodd y cyfarfod am 9.50y.h.

CADEIRYDD: Irwedd Griffiths

DYDDIAD: 10fed Ionawr 2022